

✓ YSGOL



TREBANNWS

Cynnwys

Croeso	4
Gwybodaeth Ysgol	6
Lleoliad	8
Nodau ac Amcanion	10
Categori Iaith ein Hysgol	12
Trefniadaeth yr Ysgol	14
Oriau Ysgol	16
Cwricwlwm Cyffredinol	18
Gwaith Cartref	22
Addysg Rhyw	22
Trefniadaeth Diogelwch	22
Darpariaeth Addysg Anghenion Arbennig	24
Yr Adeilad a Mynediad Iddo	26
Gofal Bugeiliol	28
Disgyblaeth Ysgol	30
Cyfleodd Cyfartal	30
Nodau Chwaraeon	32
Cysylltiadau a'r Rhieni	32
Cytundeb Cartref ac Ysgol	34
Adrodd i Rieni	34
Gweithgareddau Allgyrsiol	36
Plant Sy'n Derbyn Gofal	36
Diogelu Disgyblion	38
Codi Tâl an Weithgareddau'r Ysgol	40
Gwybodaeth Presenoldeb	40
Cinio Ysgol / Pecyn Bwyd	42
Diod a Ffrwyth	42
Clwb Brecwast	44
Diogelwch Ysgol	44
Gwisg Ysgol	44
Gwybodaeth Ychwanegol i Rieni	46
Polisi Derbyniadau	46
Symud Ymlaen	48
Trefniadau ar Gyfer Gwneud Cŵn	48
I gloi...	50
Tymhorau'r Ysgol	51
Data Canlyniadau Cymharol Y	52-55
Cwricwlwm Cenedlaethol	

CONTENTS

Welcome	5
School Information	7
Location	9
Aims and Objectives	11
School's Language Category	13
School Organisation	15
School Hours	17
General Curriculum	19
Homework	23
Sex Education	23
Safety Arrangements	23
Special Education Needs Provision	25
Access and Accommodation	27
Pastoral Care	29
School Discipline	31
Equal Opportunities	31
Sporting Aims	33
Parental Links	33
Home School Agreement	35
Reporting to Parents	35
Extra Curricular Activities	37
Looked After Children	37
Safeguarding Children	39
Charging Policy	41
Attendance Information	41
School Meals / Packed Lunch	43
Drinks & Fruit	43
Breakfast Club	45
School Security	45
School Uniform	45
Additional Information for Parents	47
Admissions Policy	47
Moving On	49
Complaints Policy	49
Finally...	50
School Term Dates	51
National Curriculum Data	52-55
Comparative Results	

Croeso

Ar ran, staff a llywodraethwyr yr ysgol, hoffwn eich croesawu i'n hysgol. Mae gan yr ysgol dros 130 mlynedd hanes addysg ym mhentref Trebannws. Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiannau'r ysgol ym mhob maes cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae llawer o'n hymwelwyr yn sôn am y croeso cynnes maent yn ei dderbyn ac am yr awyrgylch gyfeillgar sy'n rhedeg ar draws yr ysgol.

Rydym yn gweithredu drws agored ac yn ymddiried byddwch chi fel rhieni/gwarchodwyr yn ei ddefnyddio fel cyfle i ddod i adnabod ein staff ac i ddangos diddordeb gweithredol yn addysg eich plentyn. Mae cyswllt cryf rhwng cartref ac ysgol yn hanfodol i lwyddiant Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws.

Ein Datganiad o Genhadaeth yw:

"Addysgu plant i garu dysgu ar gyfer dyfodol disglair"

Darllenwch ymlaen am fwy o wybodaeth. Os hoffwch drefnu ymweliad i weld ein hysgol hyfryd ar gyfer eich hunan, cysylltwch gyda ni.



Mrs Rhian Evans
Headteacher

Ms Eira Thomas
Chair of Governors

Welcome

On behalf of the school's staff and Governing Body, I would like to welcome you to our school. The school has over 130 years of education history in the village of Trebanos. We take pride in the school's achievements in all areas of curriculum and extra-curricular activities.

Many people who visit our school comment on the warm welcome they receive and the friendly atmosphere running throughout the school.

We operate an open door policy and trust that you as parents/guardians will use this as an opportunity to get to know our staff and to show an active interest in your child's education. A strong home-school bond is essential to the success of Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws.

Our Mission Statement is:

"Teaching children to love learning for a bright future"

Please read on for more information. If you would like to arrange a visit to see our wonderful school for yourself, please contact us.



Mrs Rhian Evans
Headteacher

Ms Eira Thomas
Chair of Governors

Gwybodaeth Ysgol

Cyfeiriad:	Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws Heol Abertawe, Trebannws, Pontardawe, SA8 4BL
Rhif Ffôn:	01792 864004
E-bost:	yggdtrebannws@npt.school
Gwefan:	https://yggd-trebannws.j2bloggy.com
Awdurdod Addysg:	Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot
Ystod Oedran y Plant:	3-11 oed
Nifer ar y Gofrestr:	96
Pennaeth:	Mrs Rhian Evans
Dirprwy Bennaeth:	Mrs Eleri Bevan
Cadeirydd Llywodraethwyr:	Ms Eira Thomas
Clerc yr Ysgol:	Mrs Rhian Morris
PSO:	Mrs Imelda Parry
Clerc i'r Llywodraethwyr:	Mrs Rhian Morris

Holl wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddiad y prospectws hwn.

School Information

Address:	Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws Swansea Road, Trebannws, Pontardawe, SA8 4BL
Telephone number:	01792 864004
Email:	yggdtrebannws@npt.schoo
Website:	https://yggd-trebannws.j2bloggy.com
Education Authority:	Neath Port Talbot County Borough Council
Pupil Age Range:	3-11 years old
Number on Roll:	96
Headteacher:	Mrs Rhian Evans
Deputy Headteacher:	Mrs Eleri Bevan
Chair of Governors:	Ms Eira Thomas
School Clerk:	Mrs Rhian Morris
PSO:	Mrs Imelda Parry
Clerk to Governors:	Mrs Rhian Morris

All information correct at time of printing.

Lleoliad

Lleolir yr ysgol yng nghanol Cwm Tawe ym mhen uchaf pentref Trebannws, sydd rhwng pentrefi Clydach a Phontardawe tua saith milltir i'r gogledd ddwyrain o ddinas Abertawe.



Lleolir yr ysgol mewn dau adeilad ar wahân gyda rhodfa gysgodol yn eu cysylltu.

Mae saith ystafell ddosbarth, neuadd/ardal ginio, ystafell athrawon, llyfrgell, swyddfa'r pennaeth, swyddfa'r clerc, pedwar bloc tŷ bach ac ystafell newid i'r anabl.

Amgylchynir yr adeiladau gan iard fawr sydd yn cynnwys maes antur.



Location

Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws is situated in the heart of the Swansea Valley at the top end of the village of Trebannws. It is 7 miles north east of the city of Swansea, in between the larger villages of Clydach and Pontardawe.



The school is housed in two separate buildings, connected by a sheltered walkway.

It has seven classrooms, a hall/dining area, staff room, library, headteacher's office, main office, resources room and four toilet blocks with including a disabled facility.

The buildings are surrounded by a large yard/play area which has an adventure assault course.



Ein Nodau ac Amcanion

Mae'r ysgol yn anelu at ddarparu amrediad eang o brofiadau addysgiadol cyfoethog mewn amgylchedd diogel a chartrefol bydd yn paratoi eich plant ar gyfer y dyfodol. Golyga hyn ein bod yn rhoi ystyriaeth flaenllaw i ddatblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol, ysbrydol a chorfforol pob plentyn. Ein prif ystyriaeth yw sicrhau fod pob plentyn yn cwrdd â'u llawn botensial.



- Ceisiwn sicrhau fod pob plentyn yn gwbl ddwyieithog.
- Darparu cwricwlwm heriol, eang a chytbwys sy'n gwasanaethu anghenion pob plentyn o fewn yr ysgol.
- Manteisiwn i ddysgu ymddygiad iach tuag at waith a bywyd, ac i'w gwneud yn ddysgwyr annibynnol.
- Anelwn at ddatblygu rhinweddau personol fel dyfalbarhad, gonestrwydd a hunan hyder ac i annog hunan barch a pharch at eraill.

Our Aims and Objectives

We aim to provide a wide range of rich educational experiences in a safe and homely environment which will fully prepare your children for their future. This entails giving prominent consideration to the social, moral, cultural, spiritual and physical development of each child. Our over-riding consideration is to ensure that every child realises his or her full potential.



- We aim to ensure that every child becomes fully bilingual.
- To provide a challenging, broad, balanced curriculum which serves the need of every child within the school.
- We seek to develop a healthy attitude towards work and every day life, and to make them independent learners.
- We seek to develop personal qualities such as perseverance, honesty and self-confidence and to encourage self-respect as well as respect for others.

Categori Ieithyddol yr Ysgol

Fe benodir yr ysgol yn Ysgol Gymraeg, Cymraeg yw prif iaith yr ysgol, ac wrth adael yr ysgol mae'r plant yn ddwyieithog. Y Gymraeg yw iaith gyfathrebu'r ysgol ond ymdrechir i hysbysu rhieni o weithgareddau'r ysgol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 mae pob plentyn yn gwbl ddwyieithog ac yn rhugl yn y ddwy iaith.

Mae'r ysgol yn addysgu plant 3-11 oed mewn pedwar dosbarth Prif Ffrwd, gan gynnwys Dosbarth Meithrin. Dysgir disgyblion brif ffrwd y Cyfnod Sylfaen (Meithrin – Blwyddyn 2) trwy cyfrwng y Cymraeg yn unig. Dysgir trwy cyfrwng y Cymraeg a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 3 – 6, ac un dosbarth Canolfan Cymorth Dysgu Anghenion Arbennig (CCD). Dysgir disgyblion yn y Dosbarthiadau Cymorth Dysgu (uchafswm 8 disgybl) trwy gyfrwng y Saesneg gyda Chymraeg fel ail-iaith.

Manteision o Addysg Ddwyieithog

Mae llawer o fanteision:

- Mae'r ysgol yn rhan o gynllun Siarter Iaith gydag ysgolion eraill dros led led Cymru, menter sy'n cael cefnogaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru.
- Mae ymchwil yn dangos bod plant sy'n gallu siarad mwy nag un iaith yn gallu meddwl yn fwy creadigol a hyblyg.
- Mae plant dwyieithog yn cael y cyfle i brofi dau ddiwylliant gwahanol.
- Mae cyflogwyr yng Nghymru yn gofyn am y gallu i siarad Cymraeg yn fwy nag o'r blaen.
- Mae canlyniadau diweddar yn dangos bod dysgu Cymraeg yn gallu gwneud plant yn fwy ymwybodol o ieithoedd eraill, ac mae cael addysg ddwyieithog yn eu helpu i wneud yn well ar draws y cwricwlwm - hyd yn oed yn Saesneg!



School's Language Category

The school is designated as a Welsh Primary School, Welsh is the official language of communication throughout the school, and children should be bilingual at the end of year 6. Welsh is the medium of communication throughout the school, but every effort is made to notify parents of school activities bilingually. By the end of Key Stage 2, all pupils are fluent in both languages.

The school accommodates children aged 3-11 in four Mainstream classes which includes Nursery. Mainstream children are taught through the medium of Welsh in the Foundation Phase (Nursery-Year 2). Both Welsh and English are used as language mediums in Key Stage (Years 3-6). It also has one Learning Support Class; pupils in the Learning Support Class (maximum of 8) are taught through the medium of English with Welsh as a second language.

Advantages of a Bilingual Education

There are many advantages:

- The school is part of the Welsh Charter 'Siarter Iaith' with other Welsh primary schools throughout Wales, an initiative that is a priority of the Welsh Assembly.
- Research has shown that children who can speak more than one language are able to think more flexibly and creatively.
- It can bridge gaps between generations if grandparents or other family members speak Welsh.
- Bilingual children have the opportunity to experience two different cultures.
- Employers in Wales now ask for the ability to speak Welsh more than ever before.
- Recent results have shown that learning Welsh can broaden childrens languages and having a bilingual education enables them do achieve higher across the curriculum – even in English!



TANIO'R DDRAIG
Cymuned - Cymru - Cymeriad
Cydwelthio fel Teulu Ystalyfera



Trefniadaeth Ein Hysgol

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol pedwar dosbarth prif ffrwd. Trefnwyd y disgyblion mewn i ddosbarthiadau o allu cymysg ac mewn grwpiau blwyddyn gymysg. Mae'r rhychwant oedran uchaf ym mhob dosbarth yn 2 flynedd. Derbynnir plant Meithrin i'r ysgol tymor ar ôl eu trydydd pen-blwydd ac yn mynychu am sesiynau hanner diwrnod.

Athrawon	Mrs Helen Gibson; Miss Ffion Davies; Mrs Eleri Bevan; Mrs Amy Ginter; Mrs Amy Hart; Mrs Caryl Dale
Cynorthwywr Dysgu	Miss Ffion Harries; Mrs Julie Williams; Miss Tracey Burt; Miss Rebecca Morris; Mrs Rhian Brayley (HLTA)
Pennaeth	Mrs Rhian Evans
Clerc Ysgol	Mrs Rhian Morris
Athro Peripatetig	Mr Chris Thomas (Brass/Drums)
Gofalydd	Mr Keith Williams
Cogyddes	Mrs Lisa Allen
Cynorthwywr Gegin	Mrs Debra Griffin
Clwb Brecwast	Mrs Sian Balfe; Mrs Nicola Thomas
Cynorthwywr Cinio	Mrs Nicola Thomas; Mrs Debra Griffin
Glanhawyr	Mrs Sian Balfe; Mrs Nicola Thomas

School Organisation

At present the school has four mainstream classes. Pupils are organized in classes of mixed ability and in mixed year groups. The maximum age span in each class is two years. Nursery children are admitted to school the term after their third birthday and attend for half day sessions.

Teachers	Mrs Helen Gibson; Miss Ffion Davies; Mrs Eleri Bevan; Mrs Amy Grinter; Mrs Amy Hart; Mrs Caryl Dale
Support Assistants	Miss Ffion Harries; Mrs Julie Williams; Miss Tracey Burt; Miss Rebecca Morris; Mrs Rhian Brayley (HLTA)
Headteacher	Mrs Rhian Evans
School Clerk	Mrs Rhian Morris
Peripatetic Teacher	Mr Chris Thomas (Brass/Drums)
Caretaker	Mr Keith Williams
Cook	Mrs Lisa Allen
Kitchen Assistant	Mrs Debra Griffin
Breakfast Club	Mrs Sian Balfe; Mrs Nicola Thomas
Lunchtime Supervisors	Mrs Nicola Thomas; Mrs Debra Griffin
Cleaners	Mrs Sian Balfe; Mrs Nicola Thomas

Oriau Ysgol




Diwrnod Ysgol	Meithrin	Cyfnod Sylfaen	Cyfnod Allweddol 2
Bore	8:50am-11:30am	8:50am-11:50am	8:50am-11:50am
Amser Cinio		11:50am-12:50pm	11:50am-12:50pm
Prynhawn	1:00pm – 3:20pm	12:50pm-3:20pm	12:50pm-3:20pm

Yn ystod wythnos ysgol arferol, mae'r amser a dreulir yn dysgu yn cynnwys Addysg Grefyddol, ond heb gynnwys y weithred statudol o addoli, cofrestri ac egwyl chwarae (yn cynnwys cinio), yn 22 awr 5 munud i'r Cyfnod Sylfaen a ddim yn llai na 23 awr 30 munud i Gyfnod Allweddol 2.



School Hours



School Day	Nursery	Foundation Phase	Key Stage 2
Morning	8:50am–11:30am	8:50am–11:50am	8:50am–11:50am
Lunch Time		11:50am–12:50pm	11:50am–12:50pm
Afternoon	1:00pm – 3:20pm	12:50pm–3:20pm	12:50pm–3:20pm

During a normal school week, the total teaching time including Religious Education, but excluding the statutory daily act of worship, registration and breaks (including lunch) for children in the Foundation Phase is 22 hours 5 minutes and is not less than 23½ hours for Key Stage 2.



Y Cwricwlwm Cyffredinol

Mae trefniadau y cwricwlwm, yn ogystal â'i gynnwys a'r strategaethau dysgu a fabwysiedir gan athrawon unigol, yn unol â gofynion Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol, Cwricwlwm Cenedlaethol, Fframwaith Cyfnod Sylfaen, Datganiad Polisi'r Sir ar faterion y cwricwlwm a strategaethau lleol a chenedlaethol eraill.

Cyfnod Sylfaen:

Y saith Maes Dysgu yw:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfarthrebu
- Datblygiad Mathemategol
- Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Datblygiad Corfforol
- Datblygiad Creadigol
- Datblygu'r Gymraeg (yn y CCD)

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau plant ar draws y meysydd dysgu er mwyn sicrhau bod plant ifanc yn dysgu mewn modd addas ac integredig.



The General Curriculum

The organisation of the curriculum, together with its content and the teaching strategies employed by individual teachers, is consistent with the most recent Literacy, Numeracy and Digital Competency Framework, National Curriculum, Foundation Phase Framework, NPTs own policy statement for the curriculum and other local and national initiatives.

Foundation Phase:

The seven Areas of Learning are:

- Personal & Social Development, Well Being & Cultural Diversity
- Language, Literacy & Communication Skills
- Mathematical Development
- Knowledge & Understanding of the World
- Physical Development
- Creative Development
- Welsh Language Development (LSC)

Emphasis is placed on developing children's skills across the areas of learning to provide a suitable and intergrated approach for young children's learning.



Cyfnod Allweddol 2:

Cwricwlwm Cenedlaethol yn cynnwys:

- Cymraeg
- Saesneg
- Mathemateg
- Gwyddoniaeth
- Technoleg Gwybodaeth
- Dylunio a Thechnoleg
- Hanes
- Daearyddiaeth
- Celf
- Cerddoriaeth
- Addysg Gorfforol
- Addysg Grefyddol
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).

Asesiadau

- Asesir plant yn statudol o fewn chwe wythnos o ddechrau'r ysgol yn y dosbarth Derbyn.
- Ceir asesiadau statudol pellach ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.
- Asesir disgyblion yn ffurfiannol yn flynyddol drwy Brofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol o flwyddyn 2 i flwyddyn 6.
- Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mae asesiadau athrawon yn cofnodi cyrhaeddiadau disgyblion.

Trefniadau ar gyfer Addysg Grefyddol

Mae Addysg Grefyddol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm, ac fe ddysgir y pwnc yn ôl Maes Llafur Cytunedig yr Awdurdod Lleol. Fe fydd yn cynnwys astudiaeth o Gristnogaeth, sef y grefydd sydd wedi dylanwadu fwyaf ar ein diwylliant ni, ac yn sail i sefydliadau cymdeithasol, arferion moesol a phatrymau ymddygiad. Yn ogystal, fe fydd y plant yn astudio rhai o brif grefyddau eraill ein byd.

Mae ein gwasanaethau dyddiol yn cynnig cyfle i bawb i gydaddoli a chyd-fyfyrto. Mae gan rieni'r hawl i hepgor eu plant o'r ddarpariaeth hon; a gwneir darpariaeth arall ar gyfer y disgyblion a dynnir yn ôl.

Key Stage 2:

Key Stage 2 Curriculum Consists of:

- Welsh
- English
- Mathematics
- Science
- Information Technology
- Design & Technology
- History
- Geography
- Art
- Music
- Physical Education
- Religious Education
- Personal & Social Education (PSE).

Assessments

- Pupils are statutorily assessed within the first six weeks of starting school in the Reception class.
- There are further statutory assessments at the end of the Foundation Phase.
- Pupils in Years 2-6 undertake National Reading and Numeracy Tests annually.
- At the end of Key Stage 2, teacher assessments are used to record pupils' attainment.

Arrangements for Religious Education

Religious Education is a compulsory element within the curriculum, and is taught in accordance with the Authority's Agreed Syllabus. It will include the study of Christianity, the religion which has most influenced our own culture, giving rise to social institutions, moral codes and patterns of behaviour. The children will also study other leading world religions.

Our daily assemblies provide opportunities for collective worship and reflection. Parents have the right to withdraw pupils from Religious Education lessons and assemblies; and alternative provision will be made for pupils who are withdrawn.

Gwaith Cartref

Yn gyffredinol, fe fydd gwaith cartref yn ymestyniad o weithgareddau'r dosbarth - yn atgyfnerthu ac ymestyn agweddau o waith a ddaethpwyd ar eu traws yn ystod oriau'r ysgol. Gall tasgau gwaith cartref fod yn amrywiol eu natur: darllen, ysgrifennu, mathemateg, gwaith ymchwil, ac ati. Rhennir gwaith cartref gyda disgyblion trwy eu cyfrif HWB.

Gofynnir i rieni i helpu eu plant drwy roi'r cyfle a'r anogaeth iddynt i astudio gartref.

Calonogir plant i fynd â'u llyfrau darllen adref ar bob cyfle, fel bod rhieni/gwarchodwyr yn gallu rhannu a chefnogi darllen eu plant.



Addysg Rhyw

Mae Addysg Ryw wedi'i integreiddio i raglen draws gwricwlaidd gyda dilyniant o'r cyfnod cynradd ymlaen er mwyn cydnabod y broses raddol o aeddfedrwydd rhywiol. Gofalwn ein bod yn cyfateb pob agwedd o addysg ryw gydag aeddfedrwydd y plant.

Mae gan rieni (neu warcheidwaid) i blant yn ein hysgol yr hawl i atal eu plant rhag derbyn rhan neu'r cyfan o'r addysg ryw a gynigir, ac eithrio'r agweddau hynny sy'n rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Trefniadaeth Diogelwch

Rydym yn dilyn canllawiau Polisi Iechyd a Diogelwch y Sir. Adroddir i'r bwrdd Llywodraethol yn dymhorol am faterion Iechyd a Diogelwch. Mae hefyd gennym Swyddog Iechyd a Diogelwch yn yr Awdurdod Lleol sy'n ymweld â'r ysgol ar ein cais i arolygu'r ysgol a chynnig arweiniad lle bo angen.

Homework



In general, it will be an extension of lesson activities - reinforcing, extending and consolidating aspects of work encountered during the school day. Homework tasks can take a variety of forms: reading, writing, mathematics, research gathering etc. Homework is shared with pupils via their HWB accounts.

Parents are asked to assist by giving their children the opportunity and encouragement to study at home.

Children with reading books will be encouraged to take them home regularly in order that parents/carers share and support the child's reading.



Sex Education

Sex education is integrated into a cross curricular programme with continuity from the Primary phase onward in order to recognise the gradual process of sexual maturation. Care is taken to match any sex education with the maturity of pupils.

Parents (or persons with parental responsibility) of pupils at our school will have the right to withdraw their children from all or part of the sex education offered, except that which forms part of the National Curriculum.

Safety Arrangements

We follow the County's Health and Safety Policy guidelines. Health and Safety issues are reported to Governors on a termly basis. We also have a Health and Safety Officer at the Local Authority who visits the school at our request to inspect the school and offer guidance where required.



Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ysgol yn cydnabod fod angen cymorth ychwanegol ar rai plant er mwyn iddynt elwa'n llawn o'r cwricwlwm a gynigir gennym. Fe fydd pob plentyn sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn derbyn sylw cyson mewn grwpiau bychain, yn cefnogi eu gwaith dyddiol tu fewn i ystafelloedd dosbarth arferol y plant, yn ogystal â'u heithrio ar gyfer sesiynau dysgu yn ymwneud yn benodol â'u Cynlluniau Addysgol Unigol. Ar y pegwn arall, fe ddarparir gwaith ymestynnol i blant Mwy Abl a Thalentog er mwyn cyfoethogi eu profiadau cwricwlaidd.

Mae polisi ysgrifenedig yr ysgol yn cydymffurfio â'r 'Côd Ymarfer', a gall rhieni archwilio neu sicrhau copi ohono trwy gysylltu â'r Pennaeth.

Canolfan Cymorth Dysgu

Uned dysgu arbenigol i blant â datganiad ADY ar gyfer anawsterau dysgu cymedrol lle cynigir lleoliad i blant gan Banel Derbyniadau Awdurdod Addysg Castell-nedd Port Talbot.

Cynhwysiant ac Integreiddio

Polisi AALI Castell-nedd Port Talbot yw hyrwyddo cynhwysiad ar gyfer holl ddisgyblion plant sydd ag Anghenion Arbennig neu Anabledd e.e. Nam ar gliw, Nam ar y golwg, Awtistiaeth ayb yn y brif ffrwd ac yn yr uned. Mae'r sefyllfa ieithyddol sy'n bodoli o fewn Ysgol Trebannws yn unigryw, gyda'i statws Ysgol Gynradd Gymraeg, ac eto mae'r uned yn Saesneg eu cyfrwng. O ganlyniad, mae cyfleoedd ar gyfer integreiddio trawsgwricwlaidd ystyrlon o blant yr uned â'u cyfoedion yn y brif ffrwd yn fwy anodd ei chyflawni; fodd bynnag gwneir pob ymdrech i gynnwys disgyblion yr uned mewn gweithgareddau priodol e.e. Cerddoriaeth ac Addysg Gorfforol. Mae natur ddwyieithog y dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2 yn darparu gwell cyfleoedd ar gyfer integreiddio gweithredol.

Special Educational Needs Provision

The school recognises that some children in mainstream classes may require special help at some time in order to benefit fully from the curriculum the school offers. Every child who has Additional Learning Needs (ALN) will receive regular support within a small group situation, supporting their daily work within the children's own classrooms, as well as being withdrawn for teaching sessions which focus specifically on their Individual Education Plans. At the other end of the spectrum, the More Able and Talented (MAT) pupils are challenged by providing extension work to enrich their curriculum.

Our school's written policy conforms to the Special Educational Needs (SEN) 'Code of Practice', and is available to parents for inspection on request to the Headteacher.

Learning Support Centre

A Learning Support Centre for pupils who have a Statement of Special Educational Needs for moderate learning difficulties and are allocated a place by the Local Authority Admissions Panel.

Inclusion and Integration

It is the policy of Neath Port Talbot L.E.A. to facilitate inclusion for all pupils with Additional Learning Needs and Disabilities e.g. Hearing impairment, Visual impairment, Autism etc in the mainstream and within the Learning Support Centres. The linguistic situation which exists within Y.G.G. Trebannws is unique, in so much as the school is a Welsh Primary School, and yet the unit is essentially English medium. Consequently, opportunities for the meaningful cross-curricular integration of unit children with their mainstream peers is more difficult to achieve; however every effort is made to include pupils from the unit in appropriate activities e.g. Music and P.E.

Yr adeilad, a mynediad iddo

Saif yr ysgol ar leoliad gweddol wastad, gyda rampiau a mynedfeydd lefel i'r dosbarthiadau a'r cyfleusterau. Mae toiled i'r anabl, ac mae cyfleusterau ar gyfer cael cawod sy'n addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn wedi ei leoli yn adran y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr ysgol Bolisi ar gyfer Cydraddoldeb Hil a Chynllun Cydraddoldeb Anabledd. Gellir dod o hyd i'r polisïau yma ar wefan yr ysgol neu wrth gysylltu â'r swyddfa.



Access and Accommodation

The school is set on a mainly level site with ramps/level access to all facilities. The units have a disabled toilet, and the Foundation Phase department has shower facilities suitable for wheelchair users.

The school has a Policy for Race Equality and a Disability Equality Scheme which can be found on the school's website or by contacting the school office.



Gofal Bugeiliol

Mae gofal bugeiliol y plant yn fater i bob athro ac athrawes, er bod y cyfrifoldeb yn y pen draw yn nwylo'r pennaeth. Ceisiwn greu amgylchedd diogel tu fewn a thu allan i'r ysgol, ac rydym wastad yn ystyriol o faterion iechyd a diogelwch. Rydym yn mabwysiadu agwedd dosturiol a gofalgarn tuag at les cyffredinol pob plentyn.



Os yw plentyn yn dost, neu'n cael damwain, fe fydd yr ysgol yn cysylltu â'r rhieni neu'r gwarcheidwaid trwy'r manylion a dderbynir ar y ffurflen cyswllt, a gwneir trefniadau priodol. Os oes angen meddyginiaeth a ragnodir gan y meddyg ar blant yn ystod y dydd, yn unol a pholisi'r AALI, bydd angen i rieni cysylltu a'r swyddfa er mwyn cwblhau ffurflen caniatad.

Mae'n hanfodol i chi hysbysu'r ysgol os oes unrhyw un o'r manylion isod yn newid:

Rhif ffôn - adref neu symudol

Rhifau ffôn ceir defnyddio mewn argyfwng

Cyfeiriad cartref

Cyfeiriad Ebost

Unrhyw anghenion meddygol.



Rydym yn ymarfer dril tân yn dymhorol a cheir offer ymarfer corff ei arolygu gan gwmni allanol.

Mae gwasanaethau meddygol a deintyddol yr Awdurdod Iechyd Lleol yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Mae rhieni yn cael y wybodaeth angenrheidiol ynghylch yr ymweliadau hyn a byddwn yn cysylltu gyda chi os bydd problemau'n codi.

Pastoral Care

The pastoral care of the pupils is the concern of all class teachers, with the Headteacher having overall responsibility. We aim to create a safe environment in and around the school, and are always mindful of health and safety issues. We adopt a caring, compassionate attitude towards the general well-being of each pupil.



In the event of a child being taken ill, or sustaining an accident, the school does its utmost to contact parents by using the information provided by parents on the contact form and appropriate arrangements made. Should pupils require medication prescribed by the doctor during the day, in line with LEA Guidance, parents should liaise with the office and complete a permission form.

It is imperative that you notify the School if any of the following information has changed:

Telephone numbers – home or mobile

Emergency contact numbers

Home address

Email address

Any medical conditions.



A fire drill exercise is held on a termly basis and inspection of P.E. equipment is undertaken by an external company.

Medical and dental personnel from the Local Health Authority visit the school on a regular basis. Parents are given the necessary information regarding these visits and will be contacted if any problems arise.

Disgyblaeth yr Ysgol

Gosodir pwyslais mawr ar sicrhau safonau o ymddygiad da, ystyriaeth at eraill a pharch tuag at eiddo. Mae'r ysgol yn disgwyl ac yn gwerthfawrogi cefnogaeth y rhieni, gan obeithio y bydd rhieni yn helpu eu plant i werthfawrogi'r angen i ddatblygu hunan ddisgyblaeth er mwyn sicrhau trefn a diogelwch i holl aelodau cymuned yr ysgol.

Yn ein hysgol, mae system gwobrwyo yn bodoli sy'n gosod pwyslais mawr ar GANMOL a GWOBRWYO.

Cyfleoedd Cyfartal

Ein nod yn Ysgol Trebannws yw cynnig cyfleoedd cyfartal i bob disgybl ta beth yw eu rhyw, hil, crefydd a'u hamgylchiadau neu gefndir cymdeithasol. Credwn yn gryf fod pob plentyn o werth hafal a chyfartal ta beth yw eu datblygiad a'u cyrhaeddiad dysgu.

Trwy ein cwricwlwm agored a chudd, ceisiwn ddatblygu goddefgarwch a pharchusrwydd tuag at bobl a diwylliannau eraill gan sicrhau cymuned a seilir ar ymddiriedaeth a chydweithrediad. Credwn fod ymwybyddiaeth o gyfleoedd cyfartal yn arwain at arfer addysgiadol dda, ac yn sail ar gyfer datblygu medrau a thalentau pob unigolyn.

Teimlwn ei bod hi'n hanfodol fod pob disgybl yn cael eu trin yn gyfartal a'u galluogi, trwy gyfleoedd cyfartal, i ddatblygu i'w llawn potensial. Ein nod yw cyflwyno'r sgiliau, gwybodaeth, cysyniadau ac agweddau i'n plant sy'n angenrheidiol ar gyfer gwaith a bywyd. Cyfleoedd cyfartal yw'r sail ar gyfer datblygu sgiliau a thalentau pob unigolyn. Sylweddolwn y bydd cyfleoedd cyfartal yn broses parhaus o her, a gobeithiwn trwy ddylanwad y cartref a'r gymuned y bydd plant a rhieni yn cyfrannu at weithredu'r polisi.

School Discipline

A particular emphasis is placed on standards of good behaviour, consideration for others and respect for property. Parental support and co-operation is expected and appreciated, and it is hoped that parents will help their child to appreciate the need to develop self-discipline in order to ensure order and safety for all members of the school community.

At our school to recognise and acknowledge good behaviour, there is an existing rewards system which places a great emphasis on PRAISE and REWARD.

Equal Opportunities

It is our aim at Y.G.G Trebannws to offer equal opportunities to every pupil, irrespective of sex, race, religion or social circumstances. We firmly believe that all learners are of equal value whatever their stage of development and capacity for learning.

Through our curriculum, both hidden and overt, we aim to develop a tolerance and mutual respect for other people and cultures, thus ensuring a community based on trust and co-operation. We believe that an awareness of equal opportunities leads to good educational practice and is the basis for the development of the skills and talents of each individual.

We feel that it is essential that all pupils be treated equally, and through equal opportunities be allowed to develop their full potential. We aim to equip our pupils with skills, knowledge, concepts and attitudes which are necessary for future work and life. Equal opportunities is the basis for development of skills and talents of each individual. We realise that equal opportunities will be a continuing process of challenge and we hope that through the influence of home and the community that pupils and parents will contribute to the implementation of the policy.

Nodau Chwaraeon

Yn gyffredinol, prif nodau dysgu Addysg Gorfforol yw annog a helpu pob plentyn i fyw bywyd iachus a bywiog, ac i hyrwyddo datblygiad priodweddau dymunol megis ymdrech, chwarae teg, cyd-chwarae, dyfalbarhad, gorchest a hunan hyder.

